



**Ysgol Gynradd Gymunedol Llanfyllin
ac
Ysgol Uwchradd Llanfyllin**

Aseidiadau o Effaith Drafft

Tachwedd 2018

Cynnwys

		Tudalen
1	Rhagarweiniad	2
2	Aseiad o Effaith Integredig	3
3	Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	14
4	Aseiad o'r Effaith ar y Gymuned	22
5	Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg	27

Cynigion yn ymwneud ag Ysgol Gynradd Gymunedol Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin

Asesiadau o Effaith Drafft

1. Rhagarweiniad

Mae Cyngor Sir Powys yn ymgynghori ar gynigion i sefydlu ysgol pob oed newydd i ddisgyblion 4-18 oed yn Llanfyllin. Dyma'r cynigion:

- Cau Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin
- Sefydlu ysgol pob oed ddwyieithog newydd i ddisgyblion 4-18 oed ar safleoedd presennol Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin

Yn unol â pholisi'r Cyngor, mae Asesiad o Effaith Integredig wedi'i gyflawni sy'n ymgorffori'r Iaith Gymraeg, Cydraddoldeb, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy, Cyfathrebu ac Ymgysylltu, Diogelu, Rhianta Corfforaethol, Cydlyniant Cymunedol a Rheoli Risg.

Yn ogystal, o dan Gôd Trefniadaeth Ysgolion (2013) Llywodraeth Cymru, rhaid i awdurdodau lleol gyflawni Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yng nghyswllt pob cynnig i ad-drefnu ysgolion. Ar gyfer cynigion fydd yn effeithio ar addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, mae hefyd angen i awdurdodau lleol gyflawni Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.

Darperir yr asesiadau effaith hyn mewn ffurf drafft yn y ddogfen hon. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gyflawni ar sail y wybodaeth PLASC ddiweddaraf. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi eu cyflawni gyda mewnbwn gan y ddwy ysgol dan sylw.

Yn dilyn cyfnod o ymgynghori, bydd yr asesiadau effaith yn cael eu diweddarau i ymgorffori materion a gododd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Bydd y fersiynau wedi eu diweddarau'n cael eu hystyried gan Gabinet y Cyngor wrth benderfynu sut i symud ymlaen gyda'r cynnig hwn.

2. Asesiad o Effaith Integredig

Mae'r Asesiad o Effaith isod yn ymgorffori'r Iaith Gymraeg, Cydraddoldeb, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy, Cyfathrebu ac Ymgysylltu, Diogelu, Rhianta Corfforaethol, Cydlyniant Cymunedol a Rheoli Risg, i gefnogi penderfyniadau effeithiol a sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Y Cynnig	Uno Ysgol Gynradd Gymunedol Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin i greu un ysgol pob oed newydd yn Llanfyllin. Byddai hyn yn digwydd drwy gau Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin ac agor ysgol pob oed newydd yn darparu addysg i ddisgyblion 4-18 oed ar safleoedd presennol y ddwy ysgol.
Crynodeb Amlinellol / Disgrifiad o'r Cynnig	
Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynigion canlynol i sefydlu ysgol pob oed newydd i ddisgyblion 4-18 oed yn Llanfyllin. Dyma'r cynigion: <ul style="list-style-type: none"> - Cau Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin - Sefydlu ysgol pob oed ddwyieithog newydd i ddisgyblion 4-18 oed ar safleoedd presennol Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin 	

1. Proffil arbedion (os yn berthnasol)

2018-19	2019-20	2020-21	2021-22	2022-23	CYFANSWM
£ Dim	£ Dim	£Dim	£Dim	£Dim	£Dim

2. Gofynion ymgynghori

Gofynion ymgynghori	Dyddiad cau ar gyfer ymgynghori	Adborth wedi'i ystyried
Mae angen ymgynghori gyda'r cyhoedd	Cynhelir ymgynghoriad yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. Disgwylir y bydd cyfnod ymgynghori'r broses wedi gorffen erbyn diwedd 2018.	Na

3. Rheoli Fersiynau (dylai gwasanaethau ystyried yr asesiad effaith yn gynnar yn y broses datblygu a dylid gwerthuso'n barhaus)

Fersiwn	Awdur	Teitl Swydd	Dyddiad
1	Sarah Astley	Rheolwr Rhaglen Trawsnewid Ysgolion ac Addysg Gymraeg	10/07/18
2	Sarah Astley	Rheolwr Rhaglen Trawsnewid Ysgolion ac Addysg Gymraeg	12/09/18

4. Effaith ar Wasanaethau Eraill

Oes posibilrwydd y bydd y cynnig yn effeithio ar wasanaeth arall? (yn cynnwys goblygiadau ar gyfer Iechyd a Diogelwch a Rhianta Corfforaethol)			
GWNEWCH YN SIŴR EICH BOD YN RHOI GWYBOD I / TRAFOD GYDAG UNRHYW WASANAETH A EFFEITHIR MOR FUAN Â PHOSIBL			
Pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i barhau gyda gweithredu'r cynnig hwn yn dilyn y broses statudol, byddai angen mewnbwn gan wasanaethau eraill, er enghraifft Adnoddau Dynol, Eiddo, Y Gyfraith, Cyfathrebu a Chyllid. Gwahoddir cynrychiolwyr o'r meysydd gwasanaeth hyn i gyfarfodydd y Bwrdd Prosiect Ad-drefnu Ysgolion, felly maent yn ymwybodol o'r argymhellion, a byddant yn derbyn diweddariadau rheolaidd wrth i'r broses statudol symud ymlaen.			
Maes Gwasanaeth gafodd ei hysbysu:		Swyddog Cyswilt:	
Mesurau Lliniaru			

5. Sut mae eich cynnig yn effeithio ar weledigaeth strategol y cyngor?

Blaenoriaeth y Cyngor	Sut mae'r cynnig yn effeithio ar y flaenoriaeth hon?	EFFAITH Dewiswch o'r blwch isod	Beth fydd yn cael ei wneud i gyfrannu'n well at effaith positif neu i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?	EFFAITH AR ÔL LLINIARU Dewiswch o'r blwch isod
Yr Economi Byddwn yn datblygu economi lewyrchus	N/A	Choose an item.		Choose an item.
Iechyd a Gofal Byddwn yn arwain y ffordd o ran darparu iechyd a gofal effeithiol integredig mewn amgylchedd gwledig	N/A	Choose an item.		Choose an item.
Dysgu a sgiliau Byddwn yn cryfhau dysgu a sgiliau	Byddai'r cynnig yn arwain at fodel mwy cynaliadwy ar gyfer darparu addysg gynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn Llanfyllin, ac yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysg a roddir i ddisgyblion.	Da		

Dinasyddion a Chymunedau Byddwn yn cefnogi ein dinasyddion a'n cymunedau	Byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar breswylwyr yn ardal Llanfyllin oherwydd byddai'n darparu model mwy cynaliadwy ar gyfer darparu addysg gynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn y dref.	Da		
Ffynhonnell Tystiolaeth Amlinellol i gefnogi'r dyfarniadau				
Gwaith ymgysylltu cychwynnol gyda'r cyrff llywodraethu				

6. Sut mae eich cynnig yn effeithio ar nodau llesiant y Cynulliad?

Nod llesiant	Sut mae'r polisi / amcan newid yn cyfrannu at y nod hwn?	<u>EFFAITH</u> Dewiswch o'r blwch isod	Beth fydd yn cael ei wneud i gyfrannu'n well at effaith positif neu i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?	<u>EFFAITH AR ÔL LLINIARU</u> Dewiswch o'r blwch isod
Cymru ffynniannus: Defnydd effeithlon o adnoddau, poblogaeth fedrus ac addysgedig, yn cynhyrchu cyfoeth, yn darparu swyddi.	N/A			Choose an item.
Cymru Gydnerth: Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau sy'n cefnogi cadernid ac yn gallu addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).	N/A			Choose an item.
Cymru iachach: Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd.	N/A			Choose an item.
Cymunedau cydlynol yng Nghymru: Cymunedau sy'n atyniadol, hyfyw, diogel gyda chysylltiadau da.	N/A			

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd eang: Ystyried yr effaith ar les byd-eang wrth ystyried lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lleol.	N/A		Choose an item.	Choose an item.
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu: Diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg yn cael eu hybu a'u hamddiffyn.				
Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg, a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg	Byddai gweithredu'r cynnig yn sicrhau y byddai mynediad parhaus at addysg gynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn Llanfyllin.			Choose an item.
Cyfleoedd i hyrwyddo'r iaith Gymraeg	Byddai gweithredu'r cynnig yn sicrhau y byddai mynediad parhaus at addysg gynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn Llanfyllin, ac yn cynnig cyfleoedd gwell i hyrwyddo'r Gymraeg ac i hybu datblygiad addysgol drwy addysg cyfrwng Cymraeg.			Choose an item.
Effaith yr iaith Gymraeg ar staff	Byddai gweithredu'r cynnig yn darparu mwy o gyfleoedd i'r holl staff, gan gynnwys staff Cymraeg eu hiaith, o fod yn rhan o sefydliad mwy.			Choose an item.
Anogir pobl i wneud chwaraeon, celf a hamdden.	N/A			Choose an item.
Cymru fwy cyfartal: Cymdeithas lle gall pobl gyflawni eu potensial beth bynnag eu cefndir neu amgylchiadau (yn cynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).				
Oedran	Byddai'r cynnig yn cynnig cyfleoedd addysgol gwell i ddisgyblion o bob oed yn Llanfyllin.	Da		Choose an item.
Anabledd	Byddai'r cynnig yn cynnig cyfleoedd addysgol gwell i ddisgyblion o bob oed yn Llanfyllin, gan gynnwys unrhyw ddisgyblion gydag anabledau.	Da		Choose an item.
Ailbennu rhywedd	N/A		Choose an item.	Choose an item.

<i>Priodas neu bartneriaeth sifil</i>	N/A	Choose an item.		Choose an item.
<i>Hil</i>	Byddai'r cynnig yn cynnig cyfleoedd addysgol gwell i ddisgyblion o bob oed yn Llanfyllin, beth bynnag yw eu hil.	Da		Choose an item.
<i>Crefydd neu ffydd</i>	Byddai'r cynnig yn cynnig cyfleoedd addysgol gwell i ddisgyblion o bob oed yn Llanfyllin, beth bynnag yw eu crefydd neu gred.	Da		Choose an item.
<i>Rhyw</i>	Byddai'r cynnig yn cynnig cyfleoedd addysgol gwell i'r disgyblion i gyd, p'un ai ydynt yn fechgyn neu'n ferched.	Da		Choose an item.
<i>Cyfeiriadedd Rhywiol</i>	Byddai'r cynnig yn cynnig cyfleoedd addysgol gwell i'r disgyblion i gyd, beth bynnag yw eu tueddiad rhywiol.	Da		Choose an item.
<i>Beichiogrwydd neu Famolaeth</i>	N/A	Choose an item.		Choose an item.
Ffynhonnell Tystiolaeth Amlinellol i gefnogi'r dyfarniadau				
Trafodaethau cychwynnol gyda'r ddau gorff llywodraethu, PLASC				

7. Sut mae'r polisi / amcan newid / arbedion yn y gyllideb yn effeithio ar egwyddorion arweiniol allweddol eraill y cyngor?

Egwyddor	Sut mae'r polisi / amcan newid yn cyfrannu at y nod hwn?	<u>EFFAITH</u> Dewiswch o'r blwch isod	Beth fydd yn cael ei wneud i gyfrannu'n well at effaith positif neu i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?	<u>EFFAITH AR ÔL LLINIARU</u> Dewiswch o'r blwch isod
Egwyddor Datblygu Cynaliadwy (pum ffordd o weithio)				
<i>Tymor Hir: Cydbwysu angen tymor byr gyda'r tymor hir a chynllunio ar gyfer y dyfodol.</i>	Byddai'r cynnig yn darparu model mwy cynaliadwy o ddarparu addysg yn Llanfyllin gan sicrhau bod modd darparu addysg yn fwy effeithlon a hynny yn ei dro'n diogelu addysg gynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn Llanfyllin.	Da		Choose an item.

<p>Cydweithio: <i>Cydweithio gyda phartneriaid eraill i gyflawni'r nod..</i></p>	<p>Mae'r cynnig hwn wedi'i ddatblygu mewn cydweithrediad â chyrrff llywodraethu Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin. Disgwylir i holl ysgolion Powys gydweithredu ag ysgolion eraill i ddarparu'r cyfleoedd gorau posib i ddisgyblion. Pe bai'r cynnig hwn yn cael ei weithredu, byddai disgwyl i'r ysgol newydd barhau i gydweithredu ag ysgolion eraill, gan gynnwys ysgolion cynradd eraill yn nalgylch Llanfyllin, a hefyd gyda darparwyr uwchradd eraill ar draws Powys a thu hwnt, er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd addysgol sydd ar gael i ddisgyblion.</p>	<p>Da</p>		<p>Choose an item.</p>
<p>Cyfrannu (gan gynnwys Cyfathrebu ac Ymgysylltu): <i>Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.</i></p>	<p>Mae'r cynnig wedi'i ddatblygu drwy gynnal trafodaethau â chyrrff llywodraethu Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin. Derbyniwyd llythyr gan y ddau gorff llywodraethu'n gofyn i'r Cyngor symud ymlaen gyda'r broses statudol o sefydlu ysgol pob oed newydd yn Llanfyllin.</p> <p>Pe bai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda'r argymhelliad, byddai ymgynghoriad llawn yn cael ei gynnal â rhanddeiliaid, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, fydd yn sicrhau bod gan yr holl bartion budd gyfle i ddweud eu dweud. Bydd canfyddiadau'r ymgynghori'n cael eu hadrodd i'r Cabinet, fydd yna'n eu hystyried wrth benderfynu a ddylid symud ymlaen neu beidio. Bydd yr asesiad o effaith hwn yn cael ei ddiweddarau drwy gydol y broses i adlewyrchu unrhyw adborth.</p>	<p>Da</p>		<p>Choose an item.</p>
<p>Atal: <i>Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag codi neu ddirywio.</i></p>	<p>Mae nifer y disgyblion yn Llanfyllin yn gostwng, yn enwedig yn y sector uwchradd. Y bwriad yw, drwy sefydlu ysgol pob oed newydd ar gyfer y dref, y byddai'n cynnig model addysg mwy effeithlon gan ddiogelu addysg gynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn Llanfyllin.</p>	<p>Da</p>		<p>Choose an item.</p>

<p>Integreiddio: <i>Yn cael effaith bositif ar bobl, economi, yr amgylchedd a diwylliant a cheisio elwa'r tri.</i></p>	N/A	Choose an item.		Choose an item.
<p>Atal Tlodi: Atal, yn cynnwys helpu pobl i gael gwaith a lliniaru effaith tlodi.</p>	N/A			
<p>Gofalwyr Di-dâl: Sicrhau bod barn gofalwyr di-dâl yn cael ei ystyried.</p>	Os bydd y Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda'r cynnig, byddai ymgynghori llawn yn cael ei wneud yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Byddai gan yr holl randdeiliaid gyfle i roi eu barn fel rhan o'r broses hon, gan gynnwys unrhyw ofalwyr di-dâl yn yr ardal.	Da		Choose an item.
<p>Diogelu: Atal ac ymateb i gamdriniaeth ac esgeulustra plant, pobl ifanc ac oedolion ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol sy'n methu amddiffyn eu hunain.</p>	Os bydd y Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda'r cynnig, byddai ymgynghori llawn yn cael ei wneud yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion. Byddai hyn yn cynnwys ymgynghori â disgyblion, gan sicrhau bod eu barn ac unrhyw bryderon ganddynt yn cael eu hystyried.	Niwtral		Choose an item.

Effaith ar Weithlu Cyngor Sir Powys	Byddai gweithredu'r cynnig hwn yn effeithio ar staff presennol Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin. Os bydd y Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda'r cynnig, byddai ymgynghori llawn yn cael ei wneud yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion, wedi ei gefnogi gan dimau perthnasol yr Awdurdod Lleol (e.e. Adnoddau Dynol). Byddai hyn yn cynnwys ymgynghori â'r staff, gan sicrhau bod ganddynt gyfle i roi eu barn am yr argymhelliad. Pe bai'r argymhelliad yn cael ei weithredu, byddai strwythur staffio newydd yn cael ei gynhyrchu ar gyfer yr ysgol newydd, a byddai proses o reoli newid yn digwydd. Byddai cyfle i'r staff ymgeisio am swyddi yn yr ysgol newydd. Mae'r gweithdrefnau staffio sy'n ofynnol eu dilyn yn cynnwys cyfle i'r staff gael eu hadleoli. Rydym yn cydnabod y byddai cyfnod o ansicrwydd i'r staff tra byddai'r prosesau hyn yn cael eu cynnal, ac y gallai hyn gael effaith negyddol arnynt.	Gwael	Sicrhau bod y prosesau hyn yn cael eu cynnal mor ddiymdroi â phosib i leihau'r cyfnod o ansicrwydd.	Gwael
Ffynhonnell Tystiolaeth Amlinellol i gefnogi'r dyfarniad				
PLASC				

8. A fydd hi'n bosibl cyflawni'r cynnig?

Effaith ar y Gwasanaeth / Cyngor	Risg i gyflawni'r cynnig	Risg sydd ar ôl
Isel	Isel	Isel
Mesurau lliniaru		

9. Beth yw'r risgiau i ddarparu'r gwasanaeth neu i'r cyngor ar ôl gweithredu'r cynnig hwn?

Risg a gafodd ei adnabod	Lefel y Risg	Mesurau lliniaru	Lefel y Risg sydd ar ôl

Rhieni ddim eisiau i'w plant fynychu ysgol pob oed, ac felly'n eu symud i ysgolion eraill.	Isel	Ymgysylltu â rhieni drwy gydol y broses. Os bydd y Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda'r cynnig, rhoi cyfle i rieni gael cyfrannu at y broses o sefydlu'r ysgol newydd.	Isel
Diffyg cefnogaeth i'r cynnig gan ysgolion cynradd eraill yn nalgylch Llanfyllin.	Isel	Ysgolion cynradd eraill yn nalgylch Llanfyllin i gael eu cynnwys yn llawn drwy gydol y broses.	Isel
Yn anodd i'r ddwy ysgol bresennol ganolbwyntio ar wella canlyniadau oherwydd yr ansicrwydd a achosir gan y cynnig – gallai effeithio ar safonau.	Canolig	Y Cyngor i barhau i roi cyngor a chefnogaeth i'r ddwy ysgol a chorff llywodraethu cysgodol yr ysgol newydd i sicrhau bod safonau a pherfformiad yn parhau i wella dros y cyfnod pontio.	Canolig
Effaith negyddol ar gymhelliad staff yn ystod y cyfnod pontio, a gallai hyn arwain at rai staff yn gadael cyn i'r ysgol newydd agor.	Isel	Y gobaith yw y bydd tryloywder y broses a bod staff yn gallu cymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori'n helpu i leihau unrhyw ddiffyg cymhelliad. Y gobaith hefyd yw y gallai'r rhagolygon o fod yn rhan o ddatblygiad trawsnewidiol yn helpu i leihau'r risg yma. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r Cyngor yn sefydlu ffrwd waith Rheoli Newid i weithio'n agos â'r staff a'r corff llywodraethu cysgodol, gan sicrhau bod y trefniadau pontio'n cael eu rheoli'n dda.	Isel
Newidiadau o ganlyniad i brosiectau newydd gan y Cyngor, e.e. fformiwla ariannu newydd, trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol	Canolig	Cymorth i'w ddarparu i'r ddwy ysgol dros y cyfnod pontio.	Isel
Dyfarniad cyffredinol (i'w gynnwys yng nghofrestr risg y prosiect)			
Risg Uchel Iawn	Risg Uchel	Risg Canolig	Risg Isel
			x

10. Amserlen awgrymedig ar gyfer gweithrediadau i gyflwyno'r cynnig i newid, os caiff ei gymeradwyo

Gweithredu	Dyddiad Targed	Canlyniad	Penderfyniadau i'w gwneud
-------------------	-----------------------	------------------	----------------------------------

Ymgynghoriad statudol yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion	Ymgynghori i ddechrau ym mis Tachwedd ac i barhau tan ddiwedd Rhagfyr.	Adroddiad ymgynghori	I symud ymlaen gyda chyhoeddi rhybuddion statudol ai peidio
Cyhoeddi rhybuddion statudol	Gwanwyn 2019	Adroddiad gwrthwynebiadau	Os am barhau gyda gweithredu'r cynnig neu beidio
Sefydlu corff llywodraethu cysgodol i symud ymlaen gyda sefydlu'r ysgol newydd	Medi 2019	Corff llywodraethu cysgodol wedi'i sefydlu	
Oes angen penderfyniad yr Aelod Portffolio	Nag oes	Dyddiad y mae ei angen	
Oes angen penderfyniad Cabinet	Oes	Dyddiad y mae ei angen	Camau amrywiol yn ystod y broses
Oes angen penderfyniad Cyngor llawn	Nag oes	Dyddiad y mae ei angen	Er nad oes angen penderfyniad gan y Cyngor llawn, mae angen trafodaeth gan y Cyngor llawn ar yr adroddiad ymgynghori cyn gwneud penderfyniad Cabinet ar sut i symud ymlaen.

11. Gofynion adnoddau dangosol (FTE) – i'w gysylltu efo'r Cynllun Cyflwyno Adnoddau

Gofynion Cefnogaeth	2018-19				2019-20				2020-21			
	C1	C2	C3	C4	C1	C2	C3	C4	C1	C2	C3	C4
N/A												

12. Crynodeb Cyffredinol a Barn yr Asesiad Effaith hwn?

Asesiad Amlinellol (i'w gynnwys yn yr adroddiad i'r Cabinet)	Cyfeirnod yr Adroddiad i'r Cabinet:	
N/A		

13. A oes dystiolaeth ychwanegol i gefnogi'r Asesiad Effaith?

Pa dystiolaeth a data ychwanegol a ddefnyddiwyd i ddatblygu eich cynnig?
N/A

14. Trefniadau monitor parhaus?

Pa drefniadau fydd yn cael eu rhoi yn eu lle i fonitro'r effaith dros gyfnod?

N/A

Nodwch pryd bydd yr Asesiad Effaith hwn yn cael ei adolygu.

Bydd yr asesiad o effaith hwn yn cael ei adolygu ym mhob cam o'r broses.

3. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cyngor Sir Powys

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA)



Cynnig	Sefydlu ysgol pob oed newydd i ddisgyblion 4-18 oed yn Llanfyllin.	Swyddog Arweiniol ar gyfer yr asesiad	Sarah Astley
Ardal Wasanaeth	Gwasanaeth Ysgolion	Pennaeth Gwasanaeth perthnasol sydd wedi cytuno i'r asesiad hwn	Alec Clarke
Dyddiad yr Asesiad	Hydref 2018		
<p>Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn mynnu fod cyrff cyhoeddus, wrth gyflawni eu swyddogaethau, yn rhoi sylw dyledus i'r 'ddyletswydd gyffredinol' ganlynol:</p> <p>(a) Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, gelyniaethu ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd o dan y Ddeddf; (b) Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng y bobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl sydd ddim yn ei rhannu; (c) Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl sydd ddim yn ei rhannu.</p> <p><i>Mae'r nodweddion a warchodir yn cynnwys: oed, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, priodas a phartneriaeth sifil, rhywedd a thueddiad rhywiol. Mae'r asesiad hefyd yn ystyried effaith ar bobl a chymunedau sydd â'r Gymraeg yn ddewis iaith iddynt.</i></p> <p>Mae'r rheoliadau penodol ar gyfer Cymru [Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011] yn mynnu fod cyrff sector cyhoeddus Cymru yn monitro polisiau ac arferion perthnasol ac yna'n asesu ac adrodd ar yr effaith yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata a thystiolaeth berthnasol.</p>			
1. NOD NEU DDIBEN			
Rhowch ddisgrifiad byr o nod neu ddiben y cynnig sy'n cael ei asesu.	Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar gynigion i sefydlu ysgol pob oed newydd i ddisgyblion 4-18 oed yn Llanfyllin. Dyma'r cynigion:		

	<ul style="list-style-type: none"> - Cau Ysgol Gynradd Gymunedol Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin - Sefydlu ysgol pob oed ddwyieithog newydd i ddisgyblion 4-18 oed ar safleoedd presennol Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin
2. AMCANION	
<p>Nodwch amcanion busnes presennol y cynnig i newid.</p>	<p>Mae'r rhesymau dros sefydlu ysgol pob oed newydd yn Llanfyllin fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • I wella'r canlyniadau addysgol <ul style="list-style-type: none"> - Mwy o gyfleoedd i staff gael symud rhwng cyfnodau allweddol, er mwyn datblygu arbenigedd mewn meysydd penodol ymhellach - Cyfleoedd i ddisgyblion ym mhob cyfnod allweddol elwa o arbenigedd staff mewn pynciau penodol - Cyfleoedd cwricwlaidd ac allgyrsiol gwell i ddisgyblion ym mhob un o'r cyfnodau allweddol • I wella'r ddarpariaeth addysgol <ul style="list-style-type: none"> - Cyfleoedd i greu cwricwlwm ehangach i ateb anghenion disgyblion ym mhob un o'r cyfnodau allweddol - Cyfle i wella ystod ac ansawdd y cyfleusterau a'r adnoddau dysgu sydd ar gael er mwyn bod o fudd i ddisgyblion ym mhob un o'r cyfnodau allweddol - Cyfleoedd gwell o ran parhau i gefnogi grwpiau disgyblion agored i niwed - Cyfleoedd gwell ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog • I wella'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth <ul style="list-style-type: none"> - Cyfle i gael arweinyddiaeth gadarn o ansawdd uchel ar draws y cyfnodau allweddol - Cyfleoedd gwell i'r pennaeth ddsbarthu tasgau arweinyddiaeth pwysig i fwy o staff ar draws yr holl gyfnodau allweddol - Llywodraethu gwell oherwydd byddai'r ysgol yn cael ei rhedeg gan un corff llywodraethu • I ddarparu addysg yn fwy effeithlon <ul style="list-style-type: none"> - Potensial i'r ysgol gael ei rhedeg yn fwy effeithlon drwy wneud defnydd mwy effeithlon o staff - Potensial i rannu adnoddau ar draws bob un o'r cyfnodau allweddol

	<ul style="list-style-type: none"> • I ddarparu trefniadau pontio mwy di-dor rhwng y cyfnodau allweddol <ul style="list-style-type: none"> - Cyfle i ddisgyblion ddatblygu'n ddi-dor o un cyfnod allweddol i'r llall - Cyfleoedd gwell i ddarparu cymorth a chefnogaeth barhaus i grwpiau disgyblion agored i niwed drwy gydol eu gyrfa ysgol. 	
3. MANTEISION a CHANLYNIADAU		
i) Beth yw'r manteision neu'r canlyniadau a fwriedir o'r cynnig i newid?	Manteision y cynnig yw: <ul style="list-style-type: none"> - Byddai'n galluogi rhannu arbenigedd staff ac arferion da ar draws yr holl gyfnodau allweddol - Byddai'n gwella'r pontio rhwng pob cyfnod allweddol - Llai o aflonyddwch i ddisgyblion a rhieni - Byddai'r ysgol yn gallu darparu cwricwlwm priodol i'r disgyblion - Gallai'r ysgol redeg yn fwy effeithlon drwy rannu staff ac adnoddau ac yn y blaen - Un corff llywodraethu i gael trosolwg strategol dros yr holl ddarpariaeth addysgol i ddisgyblion / dysgwyr ym mhob un o'r cyfnodau allweddol - Yn darparu trefniadau arweinyddiaeth parhaol i'r disgyblion i gyd 	
4. PERTHASEDD CORFFORAETHOL		
Beth yw perthynas y cynnig hwn a Chynllun Newid Powys a/neu Gynllun Powys yn Un?	Dysgu a Sgiliau yw un o'r pedair blaenoriaeth yn nogfen Gweledigaeth 2025: Ein Cynllun Gwella Corfforaethol 2018-23. O fewn y flaenoriaeth hon, mae'r Cynllun yn cynnwys ymrwymiad i 'wella ein seilwaith ysgolion'. Er mwyn cyflawni hyn, 'byddwn yn gweithredu ein Polisi a Chynllun Cyflawni Trefniadaeth Ysgolion newydd i ddatblygu rhwydwaith mwy effeithlon o ysgolion, gyda mwy o ffocws ar weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.'	
5. DATA A DDEFNYDDIWD		
5.1. Pa ddata a ddefnyddiwyd i gynnal yr asesiad hwn? Ticiwch / lliwiwch y blychau fel sy'n briodol.	Proffilio defnyddwyr y gwasanaeth, gan roi dadansoddiad o bwy sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn ôl nodweddion gwarchoddedig.	✓
	Cyfraddau bodlonrwydd defnyddwyr, wedi'i rannu yn ôl nodweddion gwarchoddedig.	
	Data ansoddol (wedi'i ddadansoddi yn ôl nodweddion gwarchoddedig)	

	sy'n rhoi tystiolaeth am brofiadau defnyddwyr y gwasanaeth wrth ddefnyddio'r gwasanaeth.	
	Data ansoddol a gasglwyd gan rai sydd ddim yn defnyddio'r gwasanaeth ar hyn o bryd.	
	Monitro cwynion yn erbyn y nodweddion gwarchoddedig	
	Adroddiadau a chanfyddiadau ymchwil ehangach.	
	Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb yn seiliedig ar wasanaeth perthnasol	
5.2. 5.2. A oes unrhyw fylchau yn y data?	<p>Oes <input checked="" type="checkbox"/></p> <p>Nodwch beth yw'r bylchau: Nid oes data ansoddol ar gael ar hyn o bryd</p> <p>Sut yr ymdrinnir â'r bylchau wrth symud ymlaen?</p> <p>Bydd data ansoddol yn cael ei gasglu fel rhan o'r broses ymgynghori.</p>	Nac oes <input type="checkbox"/>
6. DADANSODDIAD O'R DATA		
6.1 Meintiol Crynowch ganlyniadau'r prif ddadansoddiad data meintiol, gan nodi'r prif ystadegau.	<p><u>PLASC Ionawr 2018</u></p> <p><u>Ysgol Gynradd Llanfyllin</u></p>	

Cofiwch gynnwys data sy'n berthnasol i'r ddarpariaeth bresennol a hefyd data sy'n gysylltiedig â'r cynnig e.e. ystadegau sy'n deillio o holiadur yr ymgynghoriad

Prif gwestiynau:

- i) A oes rhai grwpiau sy'n cael eu tan gynrychioli ar hyn o bryd yn y ffigurau ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth? A fydd newid yn effeithio ar hyn?
- ii) Sut mae lefelau bodlonrwydd yn cymharu ar draws y grwpiau nodweddion gwarchoddedig? Sut fydd newid yn effeithio hyn?

Ar sail y wybodaeth yn ffurflen PLASC yr ysgol ar gyfer Ionawr 2018, mae'r disgyblion canlynol yn disgyn i'r grwpiau nodweddion a warchodir:

- Cinio ysgol am ddim: mae 11.5% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim.
- AAA: mae anghenion addysgol arbennig gan 13.7% o'r disgyblion. O'r rhain mae datganiadau gan 0%, mae 11.1% yn destun Gweithredu gan yr Ysgol ac mae 2.6% yn destun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy.
- Anabledau: mae gan 13.7% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol.
- Saesneg fel Iaith Ychwanegol – mae 3.9% yn ddisgyblion EAL.
- Ethnigrwydd: Gwyn Prydeinig ydy grŵp ethnig 95.4% o'r disgyblion; mae 3.9% o'r disgyblion yn perthyn i grwpiau ethnig heblaw Gwyn Prydeinig.
- Plant mewn Gofal: Nid oes unrhyw Blant mewn Gofal yn yr ysgol.

Ysgol Uwchradd Llanfyllin

Ar sail y wybodaeth yn ffurflen PLASC yr ysgol ar gyfer Ionawr 2018, mae'r disgyblion canlynol yn perthyn i'r grwpiau nodweddion a warchodir:

- Cinio ysgol am ddim: mae 7.3% yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim.
- AAA: mae anghenion addysgol arbennig gan 24.5% o'r disgyblion. O'r rhain mae datganiadau gan 1.1%, mae 18.7% yn destun Gweithredu gan yr Ysgol a 4.7% yn destun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy.
- Anabledau: mae gan 24.5% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol.
- Saesneg fel Iaith Ychwanegol – Mae 1.1% o'r disgyblion wedi eu hadnabod fel rhai EAL.
- Ethnigrwydd: Gwyn Prydeinig ydy grŵp ethnig 97.7% o'r disgyblion. Mae 2.0% o'r disgyblion yn perthyn i grwpiau ethnig heblaw Gwyn Prydeinig.
- Plant mewn Gofal: Mae 0.9% yn Blant mewn Gofal yn yr ysgol.

Mae'r wybodaeth yn dangos y bydd cyfran o'r disgyblion sy'n perthyn i'r grwpiau nodweddion a warchodir yn cael eu heffeithio gan y cynnig hwn. Yn benodol, mae'n cynnwys disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol yn ogystal â rhai sy'n gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim. Mae nifer fach o ddisgyblion yn perthyn i grwpiau ethnig heblaw Gwyn Prydeinig, sy'n siarad Saesneg fel Iaith Ychwanegol neu sy'n Blant

	<p>sy'n Derbyn Gofal.</p> <p>Byddai'r cynnig i sefydlu ysgol pob oed newydd yn Llanfyllin yn effeithio ar yr holl ddisgyblion sy'n mynd i Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin ar hyn o bryd, gan gynnwys disgyblion sy'n perthyn i'r grwpiau nodweddion a warchodir. Fodd bynnag, nod y cynnig yw gwella'r cyfleoedd addysgol a fyddai ar gael i holl ddisgyblion y dref, gan gynnwys unrhyw ddisgyblion yn perthyn i'r grwpiau nodweddion a warchodir.</p>
<p>6.2 Ansoddol Crynowch y prif bwyntiau o'r dadansoddiad data ansoddol, gan gyfeirio at y prif themâu neu batrymau. Cofiwch gynnwys data sy'n berthnasol i'r ddarpariaeth bresennol a hefyd ddata sy'n gysylltiedig â'r cynnig e.e. ystadegau sy'n deillio o holiadur yr ymgynghoriad</p> <p>Prif gwestiynau:</p> <ul style="list-style-type: none"> i. A yw unrhyw grwpiau penodol yn cael profiad gwahanol fel defnyddwyr gwasanaeth? Sut bydd newid yn effeithio ar hyn? ii. A oes unrhyw feysydd gwella wedi eu cyfathrebu gan grwpiau penodol? A fydd newid yn cael effaith ar y safbwyntiau hyn? iii. Beth yw'r rhesymau pam nad yw rhai 	<p>Bydd ymgynghoriad llawn yn cael ei gynnal ar y cynigion ar gyfer Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin, gan gynnwys ymgynghori gyda chynghorau ysgol yr ysgolion a effeithir. Bydd hyn yn darparu data ansoddol mewn perthynas â'r cynnig, a gwybodaeth am unrhyw effaith ychwanegol ar ddisgyblion sy'n perthyn i'r grwpiau nodweddion a warchodir.</p> <p>Bydd manylion pellach yn cael eu hychwanegu i'r asesiad hwn ar ôl y cyfnod ymgynghori ac ar ôl ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd.</p>

<p>grwpiau'n defnyddio'r gwasanaeth? Sut fydd newid yn effeithio ar y rheswm am hynny?</p> <p>iv. Beth sydd wedi'i ddatgelu gan yr ymgynghoriad ar eich cynigion am yr effaith ar y nodweddion gwarchoddedig?</p>		
7. CANLYNIAD YR ASESIAD EFFAITH AR GYDRADDOLDEB		
<p>Yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r data ansodol a meintiol sydd ar gael, ticiwch/liliwch y blwch priodol gyferbyn sy'n nodi canlyniad yr Asesiad.</p>	<p>Nid yw'r cynnig yn cyflwyno unrhyw effaith andwyol ar gydraddoldeb. [Ewch ymlaen i gwestiwn 10]</p>	
	<p>Mae'r cynnig gyda rhywfaint o effaith andwyol ar gydraddoldeb. [Ewch ymlaen i gwestiwn 8]</p>	✓
	<p>Mae'r cynnig yn cyflwyno effaith arwyddocaol ar gydraddoldeb [Ewch ymlaen i gwestiwn 8]</p>	
8. MEYSYDD ar gyfer GWELLA		
<p>Rhowch fanylion meysydd gwan neu sensitif y cynnig a nodwyd gan yr asesiad.</p> <p>i) Pa grwpiau nodweddion gwarchoddedig a effeithir yn benodol?</p> <p>ii) A fydd y cynnig yn effeithio ar bobl ar incymau isel?</p>	<p>i) Bydd y cynnig yn effeithio ar nifer o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, a nifer fach o ddisgyblion sy'n perthyn i grwpiau ethnig heblaw Gwyn Prydeinig, sy'n siarad Saesneg fel iaith Ychwanegol neu sy'n Blant sy'n Derbyngofal.</p> <p>ii) Mae 11.5% o'r disgyblion sy'n mynd i Ysgol Gynradd Llanfyllin a 7.3% sy'n mynd i Ysgol Uwchradd Llanfyllin yn gymwys i dderbyn Cinio Ysgol am Ddim.</p> <p>iii) Mae Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin yn ysgolion dwy ffrwd, felly bydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg. Cynhelir asesiad ar wahân o'r effaith ar yr iaith Gymraeg, fel sy'n ofynnol gan Gôd Trefniadaeth Ysgolion Lywodraeth Cymru.</p>	

<p>iii) A fydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg?</p>		
<p>9. GWELLA CYDRADDOLDEB</p>		
<p>9.1 O weld fod angen gwelliannau, sut fyddwch chi'n ymdrin â hynny?</p> <p><i>h.y. Allwch chi gynnwys pobl o'r grwpiau nodweddion gwarchoddedig (mewn unrhyw ffordd) i'ch cynorthwyo gyda'r broses?</i></p> <p>i) A ellir lleihau'r effaith, a sut y gwneir hyn? ii) A oes angen addasu'r cynnig i leihau neu ddileu'r effaith? iii) A ddylid ystyried dileu'r cynnig, oherwydd yr effaith y mae'n debygol o'i gael?</p>	<p>Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai ysgol pob oed dwy ffrwd newydd yn cael ei sefydlu a byddai'r holl ddisgyblion sy'n mynd i Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin ar hyn o bryd yn gallu mynychu'r ysgol newydd. Nod y cynnig yw gwella'r cyfleoedd addysgol i holl ddisgyblion Llanfyllin, gan gynnwys unrhyw ddisgyblion sy'n perthyn i'r grwpiau nodweddion a warchodir.</p> <p>Nid oes lle i feddwl na allai'r ysgol newydd arfaethedig gwrdd ag anghenion disgyblion sy'n perthyn i'r grwpiau nodweddion a warchodir y byddai'r cynnig yn effeithio arnynt, gan gynnwys disgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol, disgyblion sy'n perthyn i Grwpiau Ethnig heblaw Gwyn Prydeinig, disgyblion EAL, disgyblion sy'n gymwys i gael Cinio Ysgol Am Ddim, a Phlant sy'n Derbyn Gofal. Nod y cynnig yw gwella'r cyfleoedd addysgol i'r disgyblion i gyd, gan gynnwys disgyblion sy'n perthyn ac yn disgyn i'r grwpiau nodweddion a warchodir.</p>	
<p>9.2 A fydd rheolaeth o'r effaith, fel yr amlinellwyd yn 9.1, yn cael ei gynnwys yng Nghynllun Gwella'r Gwasanaeth?</p>	<p>Bydd <input type="checkbox"/></p> <p>Dyddiad ychwanegu.....</p> <p>Cyfeirnod.....</p>	<p>Na fydd ✓</p> <p>Os felly, nodwch pam:</p> <p>Ni nodwyd yr angen pan ysgrifennwyd Strategaeth y Gwasanaeth</p>

4. Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

4.1 Ysgol Gynradd Gymunedol Llanfyllin

i) Cyfleusterau neu wasanaethau eraill a ddarperir gan yr ysgol

Mae'r ysgol yn cynnal tri gwahanol glwb ar ôl ysgol bob wythnos, sy'n cylchdroi yn ystod y flwyddyn. Cynhelir y clybiau canlynol:

- Clwb Dwylo Prysor
- Clwb y Ddraig (gemau)
- Clwb yr Urdd
- Clwb Garddio
- Clwb Coginio
- Bobol Bach
- Clwb Codio
- Clwb Darllen

Darperir hefyd y gweithgareddau allgyrsiol canlynol:

- Clwb Rhedeg
- WASPS (Chwaraeon Ardal y Trallwng i Ysgolion Cynradd)

ii) Gwasanaethau eraill a gynhelir yn yr ysgol

Mae nifer o weithgareddau eraill yn digwydd yn yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cylch Meithrin
- Cylch Ti a Fi
- Cylch chwarae
- SoccerholicsRus

iii) Defnydd arall o adeilad yr ysgol gan y gymuned

Mae adeilad yr ysgol hefyd yn cael ei ddefnyddio gan y gymuned ar gyfer y canlynol:

- Clwb Ffermwyr Ifanc
- Cyfarfodydd Cylch Meithrin / Ti a Fi

iv) Cysylltiadau eraill rhwng yr ysgol a'r gymuned

- Cysylltiadau cryf gyda MENCAP a STADCO
- Cysylltiadau gyda'r celfyddydau

- Dewi Morris - natur
- Bws effaith
- Cysylltiadau gyda'r Eglwys a'r Capel

v) Os yw ysgol yn darparu lle i gwrdd, cyfleusterau neu wasanaethau, lle y byddent yna'n cael eu darparu pe bai'r ysgol yn cau?

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai ysgol pob oed newydd yn cael ei sefydlu ar safleoedd presennol Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin, felly byddai safle presennol Ysgol Gynradd Llanfyllin yn parhau i fod ar gael.

vi) Y pellter a'r amser teithio ar gyfer mynychu ysgol arall yn yr un categori iaith.

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai ysgol pob oed dwy ffrwd newydd yn cael ei sefydlu ar safleoedd presennol Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin. Byddai disgyblion oed cynradd yn parhau i fod yn gallu derbyn darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg ar yr un safle, felly ni fyddai angen unrhyw deithio ychwanegol.

vii) Sut y byddai ymgysylltiad rhieni a disgyblion yn cael ei gynnal â'r ysgol arall ac unrhyw gyfleusterau y gallai eu cynnig.

Amherthnasol

viii) Unrhyw oblygiadau ehangach, e.e. effaith ar drafnidiaeth gyhoeddus, materion diogelwch cymunedol ehangach.

Amherthnasol

4.2 Ysgol Uwchradd Llanfyllin

i) Cyfleusterau neu wasanaethau eraill a ddarperir gan yr ysgol

Mae'r ysgol yn darparu'r clybiau ar ôl ysgol canlynol:

- Sesiynau adolygu
- Gwersi estynedig / dal i fyny gyda gwaith cartref
- Cwmni Theatr y *Lonely Tree*
- Gweithgareddau chwaraeon (e.e. pêl-droed, rygbi, pêl-rwyd, hoci)
- Ymweliadau addysgol e.e. Plas Bodfach
- Clwb ieuenctid wythnosol

Darperir ystod o weithgareddau allgyrsiol eraill. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Clwb yr Urdd
- Dug Caeredin (Gwobrau Aur ac Arian)
- Gweithgareddau chwaraeon (e.e. hoci, pêl-rwyd, rygbi, sboncen, gymnasteg, offer campfa)
- Hyfforddiant offerynnau cerdd
- Grŵp canu
- Drymio Affricanaidd
- Theatr Ieuenctid
- Clwb TG / Cyfrifiaduron
- Clwb Ffrangeg
- Clwb Celf
- Clwb Llyfrau
- Clwb Gwyddbwyll / Clwb Gemau
- Wal ddringo
- Cymdeithas drafod
- Clwb Dylunio a Thechnoleg
- Clwb Gwaith Cartref
- Theatr Ieuenctid y *Lonely Tree*
- Clwb Beicio Mynydd
- Band Ysgol
- Clwb Gwyddoniaeth
- Tennis Bwrdd
- Clwb Datblygu'r We

ii) **Gwasanaethau eraill a gynhelir yn yr ysgol**

Mae nifer o weithgareddau eraill yn digwydd yn yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cwnsela CAIS
- Gwasanaeth Ymyriadau Pobl Ifanc
- Cwnsela Thrive
- Clwb Ieuenctid 'Llogy' ar ôl ysgol wedi'i redeg gan weithwyr Ieuenctid
- Cyfweiliadau Gyrfa Cymru
- Clwb Gofalwyr Ifanc
- Gwasanaethau Hyb i fyfyrwyr a rhieni
- Ioga i staff
- Grŵp myfyrwyr LGBT (wedi'i hwyluso gan weithiwr Ieuenctid)
- Gwaith Cynnydd
- Sesiynau galw heibio gan nyrs ysgol ar ddydd Iau
- Gwaith cymorth Tŷ Gobaith i fyfyrwyr mewn profedigaeth
- Gwaith cymorth Hosbis Hafren i fyfyrwyr

- Cymorth gan Ganolfan Argyfwng Teuluol Sir Drefaldwyn i fyfyrwyr
- Ymarferydd EFT i ddod a helpu'n wirfoddol yn yr Hyb
- Ymarferwyr ELSA o'r adran AAA
- Rhaglen fentora i Gyfnod Allweddol 4
- Cyswllt gydag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Drefaldwyn – wrthi'n gweithio ar osod Coeden Boeni yn yr Hyb

- Mae Eco a SNAG yn cwrdd yn yr Hyb
- Gweithgareddau amser cinio a thoriad yn yr Hyb, h.y. sesiynau gwella hunan-werth gyda Helen Coleby

- Ymateb i ddigwyddiadau cenedlaethol, e.e. Bore Coffi Macmillan,
Gwisgwch Goch yn Erbyn Hiliaeth, Diwrnod Iechyd Meddwl

iii) Defnydd arall o adeilad yr ysgol gan y gymuned

Mae adeilad yr ysgol hefyd yn cael ei ddefnyddio gan y gymuned ar gyfer y canlynol:

- Defnyddir y Theatr ar gyfer gweithgareddau gan grwpiau cymunedol fel yr Urdd, Eisteddfod Powys, Clwb Pêl-droed Llanfyllin, Opera Canolbarth Cymru, Dolen Ffermio, côr meibion Penybont Fawr, cynyrchiadau theatr gan Ysgol Gynradd Llanfyllin, recordio gan S4C (Cyw), Cyswllt Celf, grŵp Ffermwyr Ifanc lleol, yr NFU, Rali Gororau Cymru ac loga i Oedolion
- Defnyddir y pwll nofio gan ysgolion cynradd lleol
- Defnyddir Campfa'r ysgol gan ysgolion cynradd lleol
- Defnyddir y Redgra gan dimau chwaraeon lleol

iv) Cysylltiadau eraill rhwng yr ysgol a'r gymuned

- Clwb Pêl-droed Llanfyllin
- Grŵp Beicio Mynydd Monty Tracks
- Tîm IMPACT
- Clwb Rygbi COBRA
- Cysylltiadau ag eglwysi lleol, e.e. Capel Tabernacl a'r tîm IMPACT
- Cysylltiadau â cholegau lleol, e.e. cynulliadau a sesiynau galw heibio yn yr Hyb
- Syniadau Mawr Cymru – hanesion ysbrydoledig gan berchnogion busnes lleol yn ystod cynulliadau yn CA4
- Swyddog Cyswllt Heddlu Ysgol PC Gayle Jones – gweithdai ar draws y cyfnodau allweddol
- Cynulliadau gan y Parch Darren Mayor bob tymor

- Cysylltiadau â dosbarthiadau chweched eraill drwy TRISGOL a'r rhwydwaith myfyrwyr Seren
- Cysylltiadau gyda Wyrwys Dolydd ar amrywiol brosiectau
- Ymddiriedolaeth Afonydd yr Hafren
- Cyd-gyfarfodydd rhwng y Cyngor Tref a'r Senedd Disgyblion

v) Os yw ysgol yn darparu lle i gwrdd, cyfleusterau neu wasanaethau, lle y byddent yna'n cael eu darparu pe bai'r ysgol yn cau?

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai ysgol pob oed newydd yn cael ei sefydlu ar safleoedd presennol Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin, felly byddai safle presennol Ysgol Uwchradd Llanfyllin yn parhau i fod ar gael.

vi) Y pellter a'r amser teithio ar gyfer mynychu ysgol arall yn yr un categori iaith.

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai ysgol pob oed dwy ffrwd newydd yn cael ei lleoli ar safleoedd presennol Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin. Byddai disgyblion cynradd yn parhau i fod yn gallu derbyn darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg ar yr un safle, felly ni fyddai angen unrhyw deithio ychwanegol.

vii) Sut y byddai ymgysylltiad rhieni a disgyblion yn cael ei gynnal â'r ysgol arall ac unrhyw gyfleusterau y gallai eu cynnig.

Amherthnasol

viii) Unrhyw oblygiadau ehangach, e.e. effaith ar drafnidiaeth gyhoeddus, materion diogelwch cymunedol ehangach.

Amherthnasol

4.3 Casgliad

Oherwydd y byddai'r cynnig yn gweld cadw'r ddarpariaeth addysg gynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn Llanfyllin yn adeiladau presennol Ysgol Gynradd Llanfyllin ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin, nid ydym yn rhagweld y byddai'r cynnig yn cael effaith sylweddol ar y gymuned.

5. Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Dylid darllen yr Asesiad hwn o'r Effaith ar y Gymraeg ar y cyd â'r Asesiad o Effaith Integredig a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a nodir yn gynharach yn y ddogfen hon.

5.1 Ysgol Gynradd Llanfyllin

i) Safonau yn y Gymraeg

Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn Gymraeg (LCW)

Cyfnod Sylfaen

	Nifer y disgyblion Blwyddyn 2	Nifer Lefel 5+	% Lefel 5+	Nifer Lefel 6+	% Lefel 6+
2014	14	13	92.9%	4	28.6%
2015	21	21	100.0%	11	52.4%
2016	9	9	100.0%	5	55.6%
2017	7	6	85.7%	4	57.1%
2018	14	12	85.7%	3	21.4%

Cymraeg Iaith Gyntaf

Cyfnod Allweddol 2

	Nifer y disgyblion Blwyddyn 6	Nifer Lefel 4+	% Lefel 4+	Nifer Lefel 5+	% Lefel 5+
2014	9	6	66.7%	3	33.3%
2015	13	13	100.0%	4	30.8%
2016	5	4	80.0%	2	40.0%
2017	16	16	100.0%	7	43.8%
2018	11	11	100.0%	4	36.4%

Cymraeg Ail Iaith

Cyfnod Allweddol 2

	Nifer y disgyblion Blwyddyn 6	Nifer Lefel 4+	% Lefel 4+	Nifer Lefel 5+	% Lefel 5+
2014	12	9	75.0%	1	8.3%
2015	17	11	64.7%	3	17.6%
2016	18	16	88.9%	10	55.6%
2017	9	7	77.8%	3	33.3%
2018	16	15	93.8%	3	18.8%

ii) Gweithgareddau ar ôl ysgol / allgyrsiol sy'n darparu cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg

Mae'r iaith Gymraeg yn cael ei hyrwyddo ym mhob un o'r gweithgareddau ar ôl ysgol a ddarperir gan staff yr ysgol.

Mae'r gweithgareddau ychwanegol canlynol yn rhoi cyfle i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg:

- Ymweliadau gan gwmni 'Mewn Cymeriad'
- Gweithgareddau i gefnogi'r Siarter Iaith Gymraeg, gan gynnwys Jamborî, diwrnod Shwmae Su'mae, gigiau Cymraeg
- Cyngherddau Nadolig / Gwyliau Cynhaeaf – gyda phlant yn y ffrwd Saesneg yn defnyddio'r Gymraeg

iii) Gweithgareddau eraill iaith Gymraeg sy'n digwydd yn yr ysgol, gan gynnwys cyfleoedd i aelodau o'r gymuned ddysgu Cymraeg neu i wneud gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg

- Cylch Meithrin
- Cylch Ti a Fi
- Mae gwersi Cymraeg i Oedolion wedi eu cynnal yn yr ysgol yn y gorffennol
- Clwb Ffermwyr Ifanc

iv) Cysylltiadau eraill rhwng yr ysgol a'r gymuned iaith Gymraeg

Amherthnasol

5.2 Ysgol Uwchradd Llanfyllin

i) Safonau yn y Gymraeg

Cymraeg iaith Gyntaf

Diwedd Cyfnod Allweddol 3

	Nifer y disgyblion Bl. 9 a asesir mewn Cymraeg Iaith Gyntaf	Nifer Lefel 5+	% Lefel 5+	Nifer Lefel 6+	% Lefel 6+
2014	25	24	96.0%	14	56.0%
2015	19	19	100.0%	9	47.4%
2016	21	19	90.5%	13	61.9%
2017	30	30	100.0%	19	63.3%
2018	33	32	97.0%	22	66.7%

Diwedd Cyfnod Allweddol 4

	Cyfanswm ymgeiswyr TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf	Nifer y disgyblion a enillodd raddau A*-C	% y disgyblion a enillodd raddau A*-C
2014	18	13	72.2%
2015	21	16	76.2%
2016	25	14	56.0%
2017	18	14	77.8%
2018	20	13	65.0%

Cymraeg Ail Iaith

Diwedd Cyfnod Allweddol 3

	Nifer y disgyblion Bl. 9 a asesir mewn Cymraeg Ail Iaith	Nifer Lefel 5+	% Lefel 5+	Nifer Lefel 6+	% Lefel 6+
2014	116	108	93.1%	64	55.2%
2015	107	96	89.7%	51	47.7%
2016	94	88	93.6%	53	56.4%
2017	118	111	94.1%	86	72.9%
2018	105	99	94.3%	79	75.2%

Diwedd Cyfnod Allweddol 4

	Cyfanswm ymgeiswyr TGAU Cymraeg Ail Iaith	Nifer y disgyblion a enillodd raddau A*-C	% y disgyblion a enillodd raddau A*-C
2014	101	68	67.3%
2015	81	66	81.5%
2016	90	61	67.8%
2017	93	68	73.1%
2018	70	49	70.0%

ii) **Gweithgareddau ar ôl ysgol / allgyrsiol sy'n darparu cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg**

Fel ysgol ddwyieithog, mae'r ysgol yn ceisio darparu gweithgareddau / gweithgareddau allgyrsiol yn ddwyieithog.

iii) **Gweithgareddau eraill iaith Gymraeg sy'n digwydd yn yr ysgol, gan gynnwys cyfleoedd i aelodau o'r gymuned ddysgu Cymraeg neu i wneud gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg**

- Mae gweithgareddau iaith Gymraeg yn digwydd yn y Theatr, gan gynnwys gweithgareddau'r Urdd, Eisteddfod Powys, Côr Meibion Penybont Fawr, defnydd gan Ysgol Gynradd Llanfyllin, recordio gan S4C, Cyswllt Celf, grwpiau Ffermwyr Ifanc, NFU

iv) **Cysylltiadau eraill rhwng yr ysgol a'r gymuned iaith Gymraeg**

- Cysylltiadau gyda RhAG (Rhieni dros Addysg Gymraeg), S4C, yr Urdd
- Y Siarter Iaith
- Cysylltiadau ag ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg
- Cysylltiadau â mudiadau cymunedol, e.e. clwb rygbi COBRA, eglwysi / capeli, Swyddog Cyswllt Heddlu
- Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau iaith Gymraeg yn ardal Llanfyllin

5.3 Casgliad

Oherwydd y byddai'r cynnig yn gweld cadw'r ddarpariaeth addysg gynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn Llanfyllin, nid ydym yn rhagweld y byddai'r cynnig yn cael effaith sylweddol ar y Gymraeg. Rydym yn rhagweld y byddai gweithredu'r cynnig yn arwain at bontio gwell rhwng y cyfnodau allweddol, a allai arwain at welliannau

o ran faint o ddisgyblion a fyddai'n parhau i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg wrth drosglwyddo o'r sector cynradd i'r sector uwchradd.

Mae hefyd yn bosib y gallai gweithredu'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar ethos y Gymraeg yn y sector uwchradd yn Llanfyllin o ganlyniad i uno ag ysgol gynradd sydd â chanran uwch o ddisgyblion cyfrwng Cymraeg nag Ysgol Uwchradd Llanfyllin.